# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Preswyl Garreglwyd**

**CARTREF PRESWYL GARREGLWYD
GARREGLWYD ROAD
CAERGYBI
LL65 1NS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/01/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae cartref preswyl Garreglwyd wedi'i leoli yng Nghaergybi ac mae'n darparu gofal a llety ar gyfer hyd at 28 o bobl 60 oed a throsodd sydd ag anghenion gofal preswyl a dementia. Roedd 13 o bobl yn byw yn y cartref ar ddiwrnod yr arolygiad.

Cyngor Sir Ynys Môn yw'r darparwr gwasanaeth. Rachel Williams yw'r unigolyn cyfrifol sy'n goruchwylio'r gwasanaeth. Mae rheolwr y gwasanaeth wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r gofal a'r cymorth a ddarperir yng nghartref preswyl Garreglwyd yn dda. Mae'r cartref yn darparu gwasanaeth dwyieithog ac mae'r gofal a ddarperir yn canolbwyntio ar yr unigolyn, a chaiff anghenion cymdeithasol eu deall a'u rhagweld. Mae'r rheolwyr a'r tîm o staff yn cydweithio'n dda ac yn ymrwymedig i ddarparu'r gofal a'r cymorth gorau posibl i'r bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, ac maent wedi cael gwahanol sesiynau hyfforddiant i'w helpu yn eu rôl; mae'r rheolwr yn darparu diwylliant ac ethos gwaith cadarnhaol yn y gwasanaeth. Mae'r amgylchedd yn lân ac yn cael budd o waith adnewyddu ac ailaddurno parhaus.

### 2. Gwelliannau

Cafodd y cartref ei ailgofrestru yn ddiweddar o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, a hwn oedd arolygiad cyntaf y cartref o dan y ddeddfwriaeth newydd. Caiff unrhyw welliannau eu hystyried fel rhan o'r arolygiad nesaf.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynlluniau personol;
- meddyginiaeth;
- cyfarfodydd staff;
- polisïau a gweithdrefnau;
- iechyd a diogelwch;
- fformat yr adolygiad o ansawdd y gofal.

## 1. Llesiant

### Ein canfyddiadau

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Yn ystod ein harsylwadau ar ddiwrnod yr arolygiad gwelwyd gofalwyr gofal yn cefnogi'r bobl ac yn ymgysylltu â nhw mewn ffordd garedig a sensitif. Roedd y gweithwyr gofal yn annog y bobl ac yn eu cynnwys mewn sgyrsiau ystyrlon. Roeddent yn dangos amynedd a dealltwriaeth wrth dawelu meddwl unigolion ac roeddent yn gallu defnyddio technegau tynnu sylw i'w hailgyfeirio pan fo angen. Edrychom ar y ffeil canmoliaeth a gwelsom nifer o gardiau diolch gan berthnasau/cynrychiolwyr y bobl. Roedd y sylwadau yn cynnwys *“thank you ever so much for taking care of X you are nothing short of brilliant”, “I want to thank you and your staff for the high level of care combined with compassion – I thank you for your professionalism and dedications”* a *“thank you all so much for looking after X and providing X with such good care”.* Roedd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw wedi gweithio yn y gwasanaeth ers nifer o flynyddoedd a gwnaethant ddisgrifio'r bobl a oedd yn byw yno fel *“teulu”* ac roeddent yn hapus i fod yn gweithio yn y gwasanaeth. Mae gan y bobl gydberthnasau cadarnhaol â'r staff.

Rhoddir cymorth i'r bobl gyda'u llesiant. Roedd y ffeiliau gofal yn dangos bod gan y bobl gynlluniau personol ar waith, a oedd yn rhoi canllawiau clir ac adeiladol i'r staff am anghenion gofal a chymorth pob unigolyn. Gwelsom fod y perthnasau/cynrychiolwyr yn cael eu hannog i gymryd rhan yn adolygiadau'r bobl a chyfrannu atynt. Roedd gan y gweithwyr gofal wybodaeth gadarn am anghenion gofal y bobl gan gynnwys hoffterau a chas bethau. Gwelsom fod atgyfeiriadau iechyd yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y driniaeth yr oedd ei hangen arnynt ar yr adeg gywir. Roedd gweithgareddau ar gael yn y cartref ac roedd dewis y bobl i gymryd rhan neu beidio yn cael ei barchu. Roedd y gweithwyr gofal wedi'u hyfforddi'n dda ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl. Roedd digon o le yn y cartref, ac roedd yn lân a diogel gydag awyrgylch cartrefol, a oedd yn galluogi'r bobl i deimlo'n gyfforddus ac yn gartrefol. Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir.

Mae gan y darparwr gwasanaeth ddulliau ar waith er mwyn diogelu'r unigolion sy'n agored i niwed y mae'n darparu gofal a chymorth ar eu cyfer. Roedd pob ffeil gofal a welsom yn cynnwys asesiadau risg priodol, a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r gweithwyr gofal am ba gamau i'w cymryd i liniaru'r risgiau a nodwyd i lesiant yr unigolyn. Roedd polisi diogelu ar gael i'r staff a chadarnhaodd y matrics hyfforddiant a welsom fod y gweithwyr gofal wedi cwblhau hyfforddiant diogelu. Roedd gan y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o risgiau'r bobl ac roeddent yn hyderus o ran y camau y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt unrhyw bryderon am les unigolyn neu arferion staff. Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed.

## 2. Gofal a Chymorth

### Ein canfyddiadau

Rhagwelir a deellir anghenion a dewisiadau unigol y bobl. Dywedodd y rheolwr wrthym fod dogfen cyn asesu newydd wedi cael ei datblygu a'i bod bellach yn cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw atgyfeiriadau newydd posibl. Gwelsom fod y ddogfen newydd hon wedi cael ei rhoi ar waith yn un o'r tair ffeil gofal a welsom. Gwelsom fod asesiadau risg, cynlluniau personol cyffredinol a chynlluniau iechyd penodol sy'n berthnasol i bob person ar gael i'r staff, er enghraifft diabetes ac iechyd y croen. Roedd y wybodaeth yng nghynlluniau personol y bobl yn rhoi gwybodaeth i'r staff am anghenion gofal a chymorth y bobl. Roedd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw i gyd yn hapus â faint o wybodaeth a oedd yng nghynlluniau personol ac asesiadau risg y bobl. Nodwyd bod peth gwybodaeth ddiweddar ar goll. Er enghraifft, ar gyfer unigolyn A roedd y staff wedi nodi yn ei daflen wirio fisol "*needs supervision when eating meals as has a tendency of putting too much food in their mouth at once".* Nid oedd y wybodaeth hon wedi cael ei chofnodi yn ei gynllun personol. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn cael eu hadolygu yn ôl yr angen, ond o leiaf bob tri mis. Roedd yr adolygiadau a welsom yn dangos bod cynnydd y bobl yn cael ei drafod â'u perthnasau/cynrychiolydd, gweithwyr gofal a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill. Fodd bynnag, nodwyd bod rhai adolygiadau yn hwyr; cawsom dystiolaeth i ddangos bod trefniadau wedi cael eu gwneud i gynnal yr adolygiadau hyn a dywedwyd wrthym fod yr oedi oherwydd y cyfnod prysur ym mis Rhagfyr, a gwnaethom gydnabod hyn. Down i'r casgliad bod y bobl yn cael gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n diwallu eu hanghenion unigol.

Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Edrychom ar y bwydlenni a gwelsom eu bod yn cynnig dewis o brydau maethlon, a baratoir yn ffres gan y tîm arlwyo mewnol. Cawsom lawer o ganmoliaeth am y bwyd gan y bobl y gwnaethom siarad â nhw a'u perthnasau/cynrychiolwyr ac yn yr holiaduron a ddychwelwyd. Roedd y ffeiliau gofal a welsom yn dangos bod y bobl yn cael eu cefnogi i gael gafael ar wasanaethau ychwanegol gan weithwyr iechyd proffesiynol a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd. Gwelsom fod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud mewn modd amserol gyda dogfennaeth yn cael ei chadw o ohebiaeth berthnasol i ddarparu cofnodion iechyd clir i bob unigolyn. Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw wybodaeth gadarn am anghenion iechyd y bobl a dywedwyd wrthym y gallent drafod unrhyw bryderon â'r nyrs ardal sy'n gweithio yn y gwasanaeth am ddwy awr bob dydd. Gwelsom fod y rheolwr wedi cyflwyno ceisiadau i'r awdurdod lleol am Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ar ran y bobl na allant gydsynio i'w trefniadau gofal. Roedd tystiolaeth i gefnogi'r ceisiadau a gwelsom fod y rheolwr hefyd wedi cwblhau asesiadau galluoedd a budd pennaf ar gyfer y bobl mewn perthynas â'r penderfyniad hwn, yn unol ag egwyddorion statudol gofynion y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Roedd y cofnodion rhoi meddyginiaeth (MAR) a welsom yn dangos bod y bobl yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd gan staff cymwys sydd wedi cael hyfforddiant. Nodwyd nad oedd un o'r tri MAR a welsom yn cynnwys llofnodion

dwbl lle roedd y staff yn nodi meddyginiaeth â llaw; trafodwyd hyn â'r rheolwr. Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal eu hiechyd, lles a llesiant parhaus.

## 3. Yr Amgylchedd

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n cael budd o raglen cynnal a chadw parhaus. Mae'r gwasanaeth wedi'i rannu yn bedair uned, ac roedd dwy ohonynt yn darparu lleoliad diogel ar gyfer y bobl sy'n byw gyda dementia. Cawsom ein tywys o amgylch yr adeilad a nodwyd glendid yr amgylchedd. Gwelsom waith glanhau dyddiol yn cael ei gwblhau, ac roedd yr ardaloedd cymunedol yn cael eu cadw'n rhydd o beryglon er mwyn cynnal diogelwch. Roedd gan bob uned ei chegin hunangynhwysol ei hun er mwyn annog a hybu annibyniaeth. Roedd gan y ddwy ardal fwyta a welsom ddigon o le a chadeiriau er mwyn i'r gweithwyr gofal helpu gyda bwyta ac yfed. Gwelsom fod arwyddion gweledol yn cynnwys lluniau a thestun ar uchder lle y gellir eu gweld, a oedd yn rhoi cliwiau ac ysgogiadau gweledol i'r bobl. Roedd gan bob unigolyn ei ystafell sengl ei hun, a oedd yn cynnwys eitemau personol a oedd yn bwysig iddo. Gwelsom fod digon o olau naturiol yn ystafelloedd y bobl a'r ardaloedd cymunedol. Dangosodd un o'r bobl ei ystafell i ni a dywedodd wrthym ei fod yn *"hapus"* â'i ystafell. Gwelsom fod yr ardal awyr agored yn ddiogel, yn gaeedig a gallai'r bobl a oedd yn byw yn y cartref fynd ati. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y gerddi yn boblogaidd yn ystod y misoedd cynhesaf ac roedd y bobl yn cael cyfle i dyfu llysiau a ffrwythau. Dywedodd y rheolwr wrthym fod gwaith cynnal a chadw yn mynd rhagddo o hyd a gwelwyd hyn yn ystod ein harsylwadau. Nodwyd nad oedd un o'r rheiddiaduron yn y brif ystafell fwyta wedi'i orchuddio, ac mae angen mynd i'r afael â hyn. Down i'r casgliad bod y bobl yn byw mewn llety sy'n diwallu eu hanghenion unigol.

Mae gan y darparwr gwasanaeth systemau a phrosesau ar waith i hybu diogelwch tân. Roedd asesiad risg tân ar waith, dyddiedig 30 Medi 2019. Gwelsom fod gwiriadau diogelwch tân wythnosol a gwiriadau goleuadau argyfwng misol wedi cael eu cwblhau'n gyson drwy gydol y flwyddyn. Gwelsom fod gan bob unigolyn ei gynllun personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng (PEEP) er mwyn helpu'r staff a'r gwasanaethau brys i ddarparu cymorth mewn argyfwng. Roedd y ddogfennaeth hyfforddiant staff a welsom yn dangos bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant tân mewnol. Down i'r casgliad bod y bobl yn cael eu cefnogi mewn amgylchedd diogel.

## 4. Arwain a Rheoli

### Ein canfyddiadau

Rhoddir gwybodaeth i'r bobl am y gwasanaeth. Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben diweddaraf a oedd yn cynnwys y wybodaeth ofynnol. Gwelsom fod y datganiad yn unol â'r gofal a'r cymorth a welsom ar ddiwrnod yr arolygiad. Edrychom ar sampl o bolisïau a gweithdrefnau a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r staff i'w cefnogi yn eu rôl. Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw wybodaeth dda am y polisi a'r weithdrefn ddiogelu ac roeddent yn hyderus o ran pa gamau y byddent yn eu cymryd petai unrhyw bryderon yn codi. Nodwyd bod angen diweddaru rhai polisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod wedi'u halinio â deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol cyfredol. Roedd dogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a oedd yn rhoi dewis i'r bobl, eu perthnasau/cynrychiolwyr a'r staff o gael dogfennaeth yn eu dewis iaith. Down i'r casgliad bod y bobl yn cael gofal a chymorth yn unol â'r datganiad o ddiben, y polisïau a'r gweithdrefnau diweddaraf.

Mae gweithdrefnau addas ar waith ar gyfer recriwtio, hyfforddi a chefnogi'r staff. Edrychom ar ffeiliau tri aelod o'r staff a gwelsom fod gwiriadau recriwtio diogel wedi cael eu cwblhau, gan gynnwys dau eirda a gwiriadau'r gwasanaeth datgelu a gwahardd (DBS). Gwelsom fod hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant sy'n benodol i'r gwasanaeth ar gael i'r staff gan gynnwys ymwybyddiaeth o ddementia lefelau 2 a 3, 'becoming a butterfly' ('dementia care matters'), ymddygiadau anodd mewn dementia, cynllunio gofal ar gyfer unigolion mewn gofal dementia a gweithgareddau hamdden mewn gofal dementia. Roedd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn hapus â'r ffordd roedd hyfforddiant yn cael ei gyflwyno, a pha mor aml roedd hynny'n digwydd. Gwelsom fod systemau cymorth staff ar waith ac, yn ystod ein harolygiad, dywedodd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth lawn yn eu rolau. Roedd y matrics goruchwylio ac arfarnu a welsom yn dangos bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un yn unol â'r rheoliadau. Ni welsom dystiolaeth o gyfarfodydd staff rheolaidd, ac mae angen mynd i'r afael â hyn. Dywedodd rheolwr y gwasanaeth wrthym yn hwyrach y cynhaliwyd cyfarfod ym mis Awst 2019, a chawsom gopi o gofnodion y cyfarfod. Down i'r casgliad bod y bobl yn cael budd o gael gofal a chymorth gan staff sydd wedi'u recriwtio'n ddiogel, sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n cael eu cefnogi yn eu rolau.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth systemau a phrosesau ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth. Gwelsom dystiolaeth bod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth o leiaf unwaith bob tri mis i fodloni'r gofyniad statudol i fonitro perfformiad y gwasanaeth. Yn ogystal, gwelsom yr adolygiad diweddaraf o ansawdd y gofal, dyddiedig 2019. Rydym yn argymell y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried templed a chanllawiau AGC ar sut i gwblhau'r adolygiad o ansawdd y gofal. Down i'r casgliad y gall y bobl sy'n cael gwasanaeth fod yn hyderus bod eu gwasanaeth yn ymrwymedig i sicrwydd ansawdd a gwelliant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell y canlynol:

- Dylid dogfennu gwybodaeth gyfredol am anghenion gofal a chymorth y bobl yng nghynlluniau personol y bobl.
- Mae'n rhaid cofnodi llofnodion dwbl yn gyson mewn cofnodion rhoi meddyginiaeth pan fydd y gweithwyr gofal yn nodi meddyginiaeth â llaw.
- Gorchuddio'r rheiddiadur yn y brif ystafell fwyta er mwyn lleihau'r risg bosibl o niwed i bobl petaent yn dod i gysylltiad â rheiddiaduron poeth neu heb eu gorchuddio.
- Dylid cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd (o leiaf chwe chyfarfod y flwyddyn).
- Dylid adolygu a diweddaru polisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol cyfredol.
- Dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried templed a chanllawiau AGC ar sut i gwblhau'r adolygiad o ansawdd y gofal, a fydd yn ei helpu i gwblhau ei ddatganiad blynyddol yn y dyfodol.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arolygu. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth yn ddirybudd ar 20 Ionawr 2020 rhwng 10:00 am a 4:30 pm.

Ystyriwyd y rheoliadau canlynol fel rhan o'r arolygiad hwn:

- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Gwnaethom ddefnyddio'r Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI). Mae adnodd SOFI yn galluogi arolygwyr i arsylwi ar ofal a'i gofnodi er mwyn ein helpu i ddeall profiadau pobl na allant gyfathrebu â ni.
- Cawsom ein tywys o amgylch yr adeilad a gwelsom saith ystafell wely.
- Gwnaethom ddefnyddio adnodd asesu amgylcheddol King's Fund. Mae gan yr adnodd hwn saith adran a chyfres o gwestiynau i ysgogi trafodaethau. Mae hyn yn galluogi arolygwyr i asesu a yw'r gwasanaeth yn ystyriol o ddementia.
- Gwnaethom olrhain achosion ac adolygu cofnodion ar gyfer tri pherson sy'n byw gyda dementia.
- Gwnaethom edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion. Gwnaethom edrych ar ffeiliau tri aelod o'r staff, dogfennaeth goruchwylio ac arfarnu, dogfennaeth hyfforddi, detholiad o bolisïau a gweithdrefnau, ymweliadau ffurfiol yr unigolyn cyfrifol, yr adolygiad diweddaraf o ansawdd y gofal, ffeil diogelwch tân a detholiad o fwydlenni.
- Gwnaethom adolygu arferion meddyginiaeth yn y gwasanaeth.
- Gwnaethom ddarllen y Datganiad o Ddiben a'i gymharu â'r gwasanaeth a welsom ar waith.
- Gwnaethom siarad â'r bobl sy'n cael gwasanaeth, dau berthynas/cynrychiolydd a phedwar aelod o'r staff.
- Gwnaethom roi adborth i reolwr y gwasanaeth ar ddiwrnod yr arolygiad.
- Gwnaethom roi adborth llafar dros y ffôn i'r unigolyn cyfrifol.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | Gwasanaeth Cartref Gofal |
| **Darparwr y Gwasanaeth** | Cyngor Sir Ynys Môn |
| **Unigolyn Cyfrifol** | Rachel Williams |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | 28 |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | 21 a 22 Mehefin 2018 |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | 20 Ionawr 2020 |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | Y ddwy |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | Ydy |

**Gwybodaeth Ychwanegol:**

Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/03/2020